



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Newidiadau Dros Dro i
**Wasanaethau
Merched a Mamolaeth**



Temporary Changes to
**Women's and Maternity
Services**

Newidiadau Dros Dro i Wasanaethau Merched a Mamolaeth yng Ngogledd Cymru

Dweud eich Dweud

Awst 2015



Cynnwys

Rhagair

Tudalen 3

Cyflwyniad

Tudalen 7

Gwybodaeth Am Y Bwrdd Iechyd

Tudalen 9

Pa Wasanaethau Sy'n Cael Eu Hystyried Ar Gyfer Newid Dros Dro

Tudalen 10

Pa Wasanaethau A Ddarperir Ar Hyn O Bryd

Tudalen 10

Pam Rydym Ni'n Credu Bod Angen I Wasanaethau Newid

Tudalen 13

Yr Hyn Mae Arbenigwyr Clinigol Yn Ei Feddwl Am Yr Angen I Newid Dros Dro

Tudalen 16

Yr Opsiynau Rydym Yn Eu Hystyried

Tudalen 17

Beth Rydych Chi Wedi Ei Ddweud Wrthym Eisoed Am Newidiadau Posibl Dros Dro

Tudalen 26

Dadansoddiad Pellach O'r Opsiynau

Tudalen 27

Sut Byddwn Yn Asesu'r Opsiynau

Tudalen 27

Yr Effaith Ariannol

Tudalen 28

Effaith Ar Y Gweithlu

Tudalen 28

Cydraddoldeb A Hawliau Dynol

Tudalen 28

Asesiad Effaith Ar Iechyd

Tudalen 29

Beth Fydd Yn Digwydd Nesaf?

Tudalen 29

Sut Byddwn Yn Penderfynu

Tudalen 30

Dweud Eich Dweud

Tudalen 30

Datganiad Cyfrinachedd

Tudalen 31

Mae fersiwn gryno o'r ddogfen hon ar gael trwy ein ffonio ar RHADFFÔN 0800 169 3142 neu anfonwch e-bost DweudEichDweudGCymru@cymru.nhs.uk





Rhagair

Mae ansawdd a diogelwch ein gwasanaethau mamolaeth yn fater hynod bwysig ar gyfer unigolion Gogledd Cymru.

Rydym yn wynebu heriau sylweddol wrth gynnal gwasanaethau yn eu ffurf gyfredol ac rydym yn gorfod ystyried newidiadau dros dro. Mae'r ddogfen hon yn gosod y problemau rydym yn eu hwynebu, y risgiau rydym yn eu rheoli ar hyn o bryd a'r opsiynau rydym yn eu hystyried.

Dim ond os cawn ddadl lawn gyda'r cyhoedd, ein staff a rhanddeiliaid, gallwn roi ystyriaeth lawn i'r materion hyn. Rydym angen clywed eich safbwyntiau fel sail i'n penderfyniadau a byddwn yn eich annog i ddweud eich barn drwy ymateb i'n hymgyngoriad.

Dr Peter Higson
Cadeirydd

Simon Dean
Prif Weithredwr Dros Dro



Dylai beichiogrwydd a genedigaeth fod yn brofiad cadarnhaol a hapus gyda mam a babi iach yn ganlyniad.

Er mwyn sicrhau hyn mae'n bwysig bod gwasanaethau'n sefydlog ac yn cael eu darparu gan ein timau arbenigol. Mae'r timau hyn angen gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i ddarparu gofal tosturiol o'r safon uchaf.

Fel arweinwyr clinigol ein bwriad cychwynnol yw darparu gwasanaethau mamolaeth diogel ac o ansawdd uchel ar draws Gogledd Cymru. Mae mwyafrif y gofal cyn geni ac ar ôl geni yn digwydd yn y gymuned neu fel claf allanol, ond rydym yn pryderu bod rhai o'n gwasanaethau, yn enwedig gwasanaethau dan arweiniad meddyg yn yr ysbyty, yn dod yn ansefydlog ac yn anghynladwy yn bennaf oherwydd diffyg staff meddygol hyfforddedig. Ein safbwynt proffesiynol yw os nad ydym yn mynd i'r afael â hyn y gallai arwain at niwed y gellir ei osgoi i famau a babanod.

Rydym yn gwybod o adroddiadau diweddar mewn meysydd eraill bod niwed yn digwydd pan mae'r pwyslais ar ansawdd a diogelwch yn cael ei gollu. Mae adroddiad diweddar ymchwiliad Morecambe Bay wedi pwysleisio beth all fynd o'i le os na chymerir cyfleoedd cynnar i fynd i'r afael ag arwyddion rhybuddio.

(gallwch gael copi o'r adroddiad ar ein gwefan yn www.cymru.nhs.uk/mamolaethgc).

Mae'n rhaid i ni yn awr benderfynu, gyda'ch mewnbwn chi, sut gallwn ni wneud hyn orau. Bydd y ddogfen hon yn rhoi ychydig o wybodaeth i chi ar y ffyrdd posibl y gallwn sefydlogi gwasanaethau yn y tymor byr. Darllenwch drwy hwn a rhowch eich safbwyntiau i ni.

Yr Athro Matthew K Makin

Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol

Dr Tony Shambrook

Cyfarwyddwr Meddygol Gofal Eilaidd

Dr Brian Tehan

Cyfarwyddwr Meddygol Ysbyty (Canol)

Mrs Geeta Kumar

Cyfarwyddwr Clinigol Obstetreg a Gynaecoleg (Dwyrain)

Dr Lesley Bolton

Cyfarwyddwr Clinigol Obstetreg a Gynaecoleg (Gorllewin)

Ms Fiona Giraud

Pennaeth Bydwreigiaeth

Mrs Angela Hopkins

Cyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth Gweithredol

Dr Mark Walker

Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol

Dr Paul Birch

Cyfarwyddwr Meddygol Ysbyty (Gorllewin)

Mr Christopher Roseblade

Cyfarwyddwr Meddygol Ysbyty (Dwyrain)

Mr Simon Leeson

Cyfarwyddwr Clinigol Obstetreg a Gynaecoleg (Canol)



Y Ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn esbonio pam rydym yn ystyried newidiadau dros dro i'r gwasanaethau merched a mamolaeth. Mae'n cynnwys manylion y gwasanaethau rydym yn eu hystyried a'r pryderon sydd gennym ar hyn o bryd amdanynt. Hefyd mae'n esbonio sut gellwch ddweud eich barn wrthym am y cynigion o ran newidiadau dros dro.

Gallwch ddarganfod gwybodaeth ar y tudalennau gwe yn www.cymru.nhs.uk/mamolaethgc

Mae'r ymgynghoriad yn ymwneud â newidiadau dros dro posibl y credwn ni sy'n angenrheidiol oherwydd y lefelau risg presennol. Nid yw hwn yn ymgynghoriad ynghylch newidiadau gwasanaeth strategol hirdymor. Oherwydd hyn, mae rhywfaint o'r wybodaeth yn datblygu wrth i ni ddeall y sefyllfa'n well. Byddwn yn parhau i ddarparu gwybodaeth wedi'i diweddarau pan fydd ar gael ar y wefan.

Dyma esboniad o rai o'r termau technegol a ddefnyddiwyd yn y llyfryn.

Gofal Cyn-geni: Gofal a roddir i ferch feichiog cyn geni ei baban

Gwasanaethau'r Fron: Gofal iechyd ar gyfer problemau'r fron; yn bennaf i ferched, ond mae rhai dynion hefyd yn cael problemau'r fron

Toriad Cesaraidd: Toriad Cesaraidd yw pan fydd baban yn cael ei eni drwy lawdriniaeth i dorri drwy abdomen a throth y fam

Y Ddeoniaeth: Mae Deoniaeth Cymru yn gyfrifol am hyfforddi meddygon (a deintyddion) wedi iddynt raddio gyda gradd feddygol

Epidwral: Dyma'r term a ddefnyddir ar gyfer anesthetig a roddir yng ngwaelod yr asgwrn cefn i leihau poen yn ystod genedigaeth

Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC): Mae'r GMC yn sefydliad annibynnol sy'n helpu i warchod a gwella addysg feddygol ac arferion ar draws y DU

Gynaecoleg: Triniaeth ar gyfer clefydau a chyflyrau merched

Staff Locwm ac Asiantaeth: Mae meddyg locwm yn gallu bod yn unrhyw feddyg sy'n cael swydd dros dro. Mae locwm asiantaeth yn feddyg dros dro sy'n derbyn cyfradd tâl uwch drwy asiantaeth. Mae bydwragedd asiantaeth yn fydwragedd dros dro sydd hefyd yn cael eu talu drwy asiantaeth

Gwasanaethau Mamolaeth: Gofalu am ferched beichiog hyd ar ôl, am gyfnod byr, i'r baban gael ei eni

Bydwraig: Yr aelod staff gofal iechyd proffesiynol, cyfrifol, sy'n darparu cefnogaeth, gofal a chynghor yn ystod bechiogrwydd, esgoriad ac yn dilyn yr enedigaeth

Bydwreigiaeth: Bydwreigiaeth yw'r proffesiwn iechyd sy'n ymdrin â bechiogrwydd, geni a gofal yn ystod y cyfnod yn dilyn yr enedigaeth, gan gynnwys gofalu am y baban newydd-anedig

Uned Dan Arweiniad Bydwragedd: Uned y GIG sy'n darparu gofal yn ystod esgoriad a genedigaeth i ferched sydd â bechiogrwydd heb gymhlethdodau, lle bydd y bydwragedd â chyfrifoldeb proffesiynol cychwynnol am eu gofal

Gofal y Newydd-anedig: Mae gofal y newydd-anedig yn golygu gofalu am fabanod sydd newydd eu geni am hyd at 28 diwrnod cyntaf bywyd baban

Gofal Dwys y Newydd-anedig: Rhoddir gofal dwys newydd-anedig i fabanod sydd â phroblemau difrifol, weithiau oherwydd iddynt gael eu geni'n gynnar iawn neu oherwydd eu pwysau geni isel

National Institute for Health and Care Excellence (NICE): Mae NICE yn darparu arweiniad a chynghor cenedlaethol i wella iechyd a gofal cymdeithasol

Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC): Y NMC yw'r corff rheoleiddio nyrsio a bydwreigiaeth yn y DU

Obstetreg: Gwasanaethau mamolaeth a ddarperir gan feddygon ymgynghorol (uwch feddygon)

Llawfeddygaeth oncoplastig: Llawfeddygaeth blastig yw hon a roddir yn dilyn triniaeth ganser, e.e. yn dilyn llawfeddygaeth y fron

Cyfraddau Marwoldeb Amenedigol: Mae'r rhain yn dangos y nifer o fabanod sy'n cael eu geni'n farw a marwolaethau babanod o fewn yr wythnos gyntaf o'u bywyd. Mae'r cyfraddau rhain yn cael eu monitro'n genedlaethol, ac mae'r cyfraddau ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol yng ngogledd Cymru

Gofal Ôl-eni: Rhoddir gofal ôl-eni i fam ar ôl iddi eni ei baban

Coleg Brenhinol y Bydwragedd (RCM): Y RCM yw undeb llafur a'r gymdeithas broffesiynol sy'n cefnogi bydwragedd

Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr (RCOG): Mae'r RCOG yn gorff meddygol proffesiynol sy'n gweithio i osod safonau ar gyfer gofal iechyd i ferched, darparu hyfforddiant a dysgu gydol oes i feddygon ac yn siarad allan am faterion gofal iechyd merched



Cyflwyniad

Dylai rhoi genedigaeth fod yn brofiad cadarnhaol i bob dynes, mewn amgylchedd sy'n bodloni eu hanghenion, gyda'r nifer cywir o staff medrus i ddarparu cefnogaeth yn cynnwys ymateb prydlon mewn argyfwng.

Mae'n hanfodol bwysig ein bod ni'n sicrhau bod gwasanaethau mamolaeth yn ddiogel ac o ansawdd uchel yn gyson sy'n cynnig dewisiadau i ferched yng Ngogledd Cymru. Mae gwasanaethau (o dan arweiniad meddygon ymgynghorol) Obstetrig yn cael eu darparu ar hyn o bryd mewn tri ysbyty ar draws Gogledd Cymru. Rydym wedi cydnabod am beth amser fod ein gwasanaethau obstetrig yn dod yn fwy ansfydlog. Mae'r problemau'n cynnwys diffyg yn niferoedd y meddygon; anawsterau recriwtio digon o staff cymwysedig; hyfforddiant i feddygon iau; a bodloni gofynion cenedlaethol ar gyfer ansawdd gofal. Nid yw rhai o'r rhain yn unigryw i Ogledd Cymru; mae nifer o wasanaethau mamolaeth ar draws y DU yn cael heriau tebyg. Rydym wedi bod yn ystyried y materion hyn ac wedi siarad â chlinigwyr, mamau a chynrychiolwyr grwpiau cymuned am y risgiau i famau a babanod sy'n codi o'r sefyllfa bresennol.

Ym mis Medi 2014, cafodd pryderon eu codi yn y Bwrdd Iechyd am p'un a allem ddarparu gwasanaethau mamolaeth yn yr un modd. Yn gynharach eleni, trafododd y Bwrdd Iechyd p'un a oedd angen newid gwasanaethau dros dro i leihau risgiau i ddiogelwch cleifion. Mynegwyd nifer o safbwyntiau cryf am y cynigion ac yn dilyn gweithrediadau cyfreithiol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cytuno i ymgynghori â'r cyhoedd cyn cyrraedd penderfyniad ar p'un a oes angen newid dros dro yn ystod yr amser anodd hwn.

Mae'r risgiau yn cael eu monitro'n agos yn ddyddiol a chymerir camau byrdymor pan fo angen cadw'r gwasanaethau'n ddiogel. Mae'r rhain wedi cynnwys rhyddhau amser staff drwy ganslo rhywfaint o lawfeddygaeth gynaeceleg cynlluniedig a gohirio hyfforddiant dros dro. Ar rai achlysuron rydym wedi trosglwyddo mamau i ysbytai eraill.

Rydym yn credu ei bod hi'n bwysig sefydlogi gwasanaethau sy'n ansfydlog ar hyn o bryd. Yn ein barn ni, mae'r risgiau i famau a babanod o geisio cadw'r gwasanaethau i fynd yn yr un modd yn fwy na'r risgiau a all fod o newid dros dro i wasanaethau.

Er gwaethaf ymdrechion niferus i recriwtio mwy o feddygon, nid oes gennym ddigon o staff meddygol i redeg tri rota ysbyty sefydlog. Mae hyn yn arbennig o anodd ar lefel Staff Meddygol ar y "radd ganol" sy'n darparu'r rhan fwyaf o'r gofal meddygol uniongyrchol i famau a babanod. Gwnaed hyn yn waeth yn 2014 pan wnaeth y Ddeoniaeth Cymru (yn gyfrifol am hyfforddiant meddygol yng Nghymru) godi pryderon am brofiadau hyfforddeion yng Ngogledd Cymru.

Arweiniodd hyn at hyfforddeion yn cael eu tynnu o Ysbyty Glan Clwyd. Roedd y bylchau a adawyd gan yr hyfforddeion angen eu llenwi gyda meddygon gradd ganol ychwanegol.

Fel nifer o ysbytai, rydym yn defnyddio staff meddygol dros dro (asiantaethau a locwm) a gallent chwarae rôl hanfodol wrth gyflenwi absenoldeb tymor byr oherwydd salwch neu wyliau blynyddol. Ond os bydd gofyn mwy hirdymor, cyson neu gynyddol i gyflogi staff meddygol dros dro, yn enwedig ar fyr rybudd, mae hwn yn arwydd o rybudd bod y gwasanaeth yn ansefydlog ac yn anghynladwy, yn glinigol ac yn ariannol.

Gall hyd yn oed swyddi dros dro (asiantaethau a locwm) fod yn anodd recriwtio mewn ardaloedd gwledig megis Gogledd Cymru.

Mae'r RCOG yn cydnabod bod gan y GIG broblem genedlaethol gyda bylchau rota gradd ganol mewn obstetreg a gynaeoleg o oddeutu 25-30% ar unrhyw adeg. Mae'r graddfeydd ar draws Gogledd Cymru eleni wedi bod yn aml rhwng 45-65%. Nid yw bob amser yn bosibl llenwi'r bylchau hyn gyda staff dros dro ac o ganlyniad, gofynnir i feddygon ymgynghorol yn aml gymryd rolau'r meddygon gradd ganol ymlaen.

Y tu allan i weithio yn ystod yr wythnos 9.00am tan 5.00pm arferol, mae'r meddygon ymgynghorol yn cymryd eu tro i fod ar gael o'u cartref ar gyfer gwaith brys yn yr ysbytai. Rydym yn galw hyn yn waith dibreswyl ac maent ar gael i weithio'r bore wedyn i barhau i weithio. Os oes bwlch yn y rota gradd ganol a bod y meddyg ymgynghorol yn gorfod aros yn yr ysbyty dros nos i gynnal gwasanaeth diogel, rydym yn galw hyn yn gyflenwi preswyl ac ni all y meddyg ymgynghorol weithio'r diwrnod wedyn. Gall hyn arwain at weithlu meddygol sydd o dan ormod o straen ac yn flinedig, a all beri risgiau i famau a babanod.

Mae tystiolaeth dda fod gwaith tîm effeithiol yn uniongyrchol gysylltiedig â chanlyniadau i gleifion. Hefyd, gall defnyddio gormod o staff dros dro, efallai nad ydynt yn gyfarwydd â'r uned neu â chydweithwyr clinigol, gael effaith ansefydlog ar y timau. Mae'r GMC hefyd yn glir y dylai staff meddygol dros dro gael eu goruchwyllo'n agos gan uwch staff meddygol. Mae hyn yn angenrheidiol ond yn cymryd amser; a gall leihau fwyfwy ar yr amser sydd ar gael ar gyfer gofal claf uniongyrchol gan staff meddygol ymgynghorol.

Mae hefyd yn bwysig bod y timau yn sefydlog os ydynt am adeiladu'r diwylliant sy'n canolbwyntio ar ansawdd, diogelwch a gwelliant parhaus. Dylai staff meddygol gael amser i gymryd rhan wrth gasglu data canlyniadau, archwiliadau, ymchwil ac addysg. Pan mae timau'n ansefydlog, mae'n llawer anoddach datblygu'r diwylliant hwn ac ymrwymo i'w gynnal.

Mae'r rhain yn faterion sy'n effeithio ar y gwasanaeth Gogledd Cymru cyfan. Oherwydd y pryderon diogelwch sylweddol hyn, rydym yn credu bod yn rhaid i ni weithredu i amddiffyn mamau a babanod. Rydym yn ystyried p'un a oes angen i ni ganolbwyntio'r gwasanaethau o dan arweiniad meddygon ymgynghorol yn nau o'n tri phrif ysbytai - Ysbyty Gwynedd, Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Maelor Wrecsam - dros dro. Bydd gwasanaeth o dan arweiniad bydragedd yn dal yn bodoli ym mhob un ysbyty, fel bod mamau sy'n wynebu beichiogrwydd rhwydd yn gallu cael eu babanod yn unrhyw un o'r ysbytai.

Mae cysylltiadau agos â gwasanaethau i'r newydd-anedig a gynaeoleg sy'n golygu bydd angen newidiadau dros dro i'r gwasanaethau hyn hefyd. Disgrifir y rhain hefyd. Rydym angen symud rhan o wasanaethau'r fron dros dro i wneud lle i'r newidiadau mewn gwasanaethau eraill. Ar hyn o bryd, mae cleifion mewnol ar gyfer llawdriniaeth y fron a llawdriniaeth gynaeolegol yn defnyddio'r un ward i ferched ym mhob un ysbyty. Bydd staff y ward yn gallu darparu gofal i ferched yn ystod unrhyw newidiadau dros dro a byddwn yn gallu cadw ward bwrpasol i ferched. Byddai symud llawdriniaeth y fron i gleifion mewnol yn creu digon o le ar y ward a'r theatr i wneud lle i gynaeoleg.

Mae'r ddogfen hon yn egluro beth rydym yn ei feddwl y byddai'r ffordd orau o reoli'r pryderon presennol. Mae risgiau a manteision i bob un o'r opsiynau. Rydym eisiau gwybod beth ydych chi'n ei feddwl.

Byddai unrhyw newidiadau dros dro yn eu lle tra rydym yn parhau i wneud bob ymdrech i gryfhau'r gwasanaethau drwy recriwtio mwy o feddygon; gwella gwasanaethau bydwreigiaeth; a gweithio gyda'r timau i wella perthnasau. Bydd hyn yn cymryd ychydig o amser i'w gyflawni, ond rydym eisiau iddo gymryd cyn lleied o amser â phosibl. Rydym eisoes yn rhagweithiol wrth geisio recriwtio mwy o feddygon. Rydym wedi recriwtio 27 bydwraig newydd yn ddiweddar ac rydym wedi ailddechrau hyfforddiant hanfodol.

Bydd datblygu'r Ganolfan Is-ranbarthol Gofal Dwys i'r Newydd-anedig (y SuRNICC) yn Ysbyty Glan Clwyd fel canolfan rhagoriaeth ar gyfer babanod sydd ag anghenion cymhleth yn fantais sylweddol wrth ddenu staff i Ogledd Cymru. Rydym yn gweithio ar yr achos busnes ar gyfer y buddsoddiad cyfalaf sydd ei angen i adeiladu'r ganolfan newydd ac rydym yn disgwyl cwblhau'r achos busnes ar gyfer cyfnod nesaf y broses ym mis Tachwedd 2015. Bydd Llywodraeth Cymru angen cymeradwyo hyn a'r achos busnes terfynol yn ystod y flwyddyn nesaf ac rydym yn rhagweld dechrau ei adeiladu yn yr Hydref 2016. Wrth wneud hyn, rydym yn recriwtio mwy o staff arbenigol i ychwanegu at y sgiliau o fewn y tîm i'r newydd-anedig. Rydym yn recriwtio dau neonatolegydd ychwanegol ac rydym wedi recriwtio Uwch Nyrsys Ymarferwyr i'r Newydd-anedig ychwanegol yn barod.

Yn ystod yr amser hwn byddwn yn datblygu cynlluniau ar gyfer sut bydd gwasanaethau'n gweithio ar draws Gogledd Cymru yn y tymor hirach, mewn rhwydwaith i gefnogi pob un o'n hysbytai. Byddwn yn ystyried beth rydych yn ei ddweud wrthym am yr hyn sydd yn bwysig i chi, ac yn trafod y cynlluniau gyda chi cyn iddynt gael eu gwneud yn derfynol.

Yn y cyfamser, rydym yn gwneud bob ymdrech i gadw'r gwasanaethau i fynd yn ddiogel ac yn ceisio lleihau'r risgiau i gleifion. Mae hyn yn heriol iawn, gyda chymau angen eu cymryd bob diwrnod i reoli'r risgiau. Mae hon yn sefyllfa anodd ac rydym yn pryderu na allwn fod mor hyderus ag yr hoffem fod am ansawdd y gofal a ddarperir i famau ac i fabanod.

Rydym yn credu bod angen newidiadau dros dro yn gyflym. Ein prif bryderon yw diogelwch mamau a babanod, ac ansawdd y gwasanaethau maent yn eu cael.

Ynglŷn â'r Bwrdd Iechyd

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gyfrifol am hyrwyddo iechyd da a darparu gwasanaethau gofal iechyd ar gyfer poblogaeth gogledd Cymru. Cyfanswm poblogaeth y chwe sir - Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam - yw ychydig o dan 700,000. Dros gyfnodau gwyliau mae nifer o ymwelwyr sy'n dod i ogledd Cymru hefyd angen gofal iechyd.

Rydym yn gyfrifol am ofal iechyd mewn cymunedau lleol a gwasanaethau ysbyty. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau gofal cychwynnol i bobl sydd wedi'u cofrestru gyda MT (meddyg teulu), a chan fferyllwyr cymunedol, deintyddion ac optometryddion (gofal llygaid).

Mae rhai o'n trigolion sy'n byw yn ne Gwynedd yn defnyddio gwasanaethau Ysbyty Bronglais, Aberystwyth. Mae rhai o'n trigolion yn Sir y Fflint yn defnyddio Ysbyty Iarlles Caer fel eu prif ysbyty. Mae rhai trigolion yng ngogledd a gorllewin Powys, Sir Gaer a Sir Amwythig yn defnyddio'n gwasanaethau yng ngogledd Cymru ac efallai â diddordeb yn yr ymgynghoriad hwn.

Pa Wasanaethau Sy'n Cael Eu Hystyried Ar Gyfer Newid Dros Dro

Rydym yn ystyried yr angen am newid dros dro i **wasanaethau mamolaeth dan arweiniad ymgynghorwyr** (obstetreg). Darperir gwasanaethau dan arweiniad ymgynghorwyr gan feddygon (obstetryddion) a bydwragedd mewn ysbytai mawr. Maen nhw'n darparu gofal i ferched sydd angen mwy o gefnogaeth arbenigol ar gyfer geni - y rhai a ystyrir yn enedigaethau risg uwch, oherwydd cyflyrau meddygol neu broblemau sy'n ymwneud a beichiogrwydd.

Mae tystiolaeth dda y gall merched eraill, y disgwylir iddynt gael beichiogrwydd rwydd, dderbyn gofal diogel gan fydwragedd. Mae tystiolaeth glinigol a chanllawiau NICE yn cynghori merched i wneud deunydd mwy o ofal dan arweiniad bydwragedd oherwydd mae'r canlyniadau'n well. Mae'r canllaw hwn yn awgrymu y gallai o leiaf 40% o ferched gael eu babanod yn ddiogel mewn uned dan arweiniad bydwragedd neu gartref.

Pe byddwn yn gwneud newidiadau i'r gwasanaethau mamolaeth, bydd angen i ni wneud newidiadau eraill dros dro:

- Gwasanaethau gynaeoleg cleifion mewnol a brys - oherwydd bod y rhan fwyaf o obstetryddion hefyd yn darparu gwasanaethau gynaeoleg.
- Gwasanaethau newydd-anedig - i fabanod sydd angen cefnogaeth ychwanegol ar ôl geni - oherwydd bod gwasanaethau mamolaeth dan arweiniad ymgynghorwyr a gwasanaethau gofal ar ôl-eni mwy cymhleth angen cydweithio
- Rhai gwasanaethau'r fron - llawdriniaethau cleifion mewnol i bobl sydd â phroblemau'r fron - byddai angen creu lle ar wardiau a sesiynau theatr ar gyfer newid gwasanaeth dros dro. Ar hyn o bryd mae ward merched ym mhob un o'r ysbytai, a byddai symud gofal cleifion mewnol llawdriniaethau'r fron i gydbwysu gofal cleifion mewnol llawdriniaethau gynecoleg yn galluogi parhad y ward merched un pwrpas a gefnogir gan staff ward profiadol a sgiliau mewn gofal y fron a gynaeoleg.

Pa Wasanaethau A Ddarperir Ar Hyn O Bryd

Gwasanaethau Mamolaeth a Gynaeolegol - darperir gwasanaethau gogledd Cymru yn y tri prif ysbyty – Ysbyty Gwynedd ym Mangor, Glan Clwyd ym Modelwyddan a Wrecsam Maelor. Ar hyn o bryd mae'r tri ysbyty yn darparu gwasanaethau cyffelyb. Mae'r rhain yn cynnwys:

Gwasanaethau Mamolaeth:

- Clinigau cleifion allanol cyn-geni, ar gyfer gofal a chefnogaeth i ferched beichiog cyn genedigaeth eu baban
- Sgrinio cyn-geni, i helpu nodi unrhyw broblemau iechyd i fabanod cyn iddynt gael eu geni
- Gwasanaethau addysg rhieni cyn-geni
- Meddygaeth ffetws
- Cefnogaeth ôl-eni mewn clinigau a gartref
- Cefnogaeth ar gyfer genedigaethau cartref
- Unedau dan arweiniad Bydwragedd
- Gwasanaethau Mamolaeth dan arweiniad Meddygon Ymgynghorol

Hefyd, mae Unedau Esgor Gartrefol yn yr Inffymari yn Ninbych, Ysbyty Bryn Beryl (Pwllheli), Ysbyty Dolgellau (a chyfleusterau ar gael yn Ysbyty Tywyn)



Mae oddeutu 2,700 genedigaeth yn Ysbyty Maelor Wrecsam; 2,400 yng Nglan Clwyd a 2,100 yn Ysbyty Gwynedd yn flynyddol: cyfanswm o 7,200 yn y prif ysbytai yng ngogledd Cymru. Mae'r niferoedd wedi parhau i fod yn eithaf cyson dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae genedigaethau cartref ac mewn unedau esgor cartrefol yn cyfrif am tua 2% o'r holl enedigaethau. Mae tua 500 genedigaeth hefyd yn Ysbyty Iarlles Caer.

Unedau Dan Arweiniad Bydwagedd

Mae Uned dan arweiniad Bydwagedd yn uned famolaeth lle darperir gofal gan fydwagedd. Maen nhw'n cefnogi merched sydd â beichiogrwydd heb gymhlethdodau ac fe'u hystyrir i fod â risg isel o ddatblygu problemau.

Gall Unedau dan arweiniad Bydwagedd fod 'ochr yn ochr' – a ddarperir mewn ysbyty lle mae gwasanaeth dan arweiniad Meddygon Ymgynghorol hefyd. Yng ngogledd Cymru, mae unedau dan arweiniad bydwagedd ochr yn ochr yn Ysbytai Gwynedd (agorwyd yn 2015), Glan Clwyd a Maelor Wrecsam.

Gall Unedau dan arweiniad Bydwagedd hefyd fod yn 'gweithredu'n annibynnol' – yn y gymuned neu mewn ysbyty lle nad oes gwasanaeth dan arweiniad Meddygon Ymgynghorol.

Nid oes unrhyw wahaniaeth yn y gofal a ddarperir yn yr unedau hyn. Os bydd angen gofal ymgynghorydd ar ferch yn ystod yr esgoriad, caiff ei throsglwyddo i'r gwasanaeth dan arweiniad Meddygon Ymgynghorol agosaf.

Cyhoeddwyd canllawiau NICE yn Rhagfyr 2014 sy'n cadarnhau diogelwch Unedau dan arweiniad Bydwagedd ar gyfer beichiogrwydd heb gymhlethdodau.

Gwasanaethau Gynaecoleg

- Clinigau cleifion allanol gynaecoleg
- Triniaethau cleifion allanol gynaecoleg (mân driniaethau nad oes angen aros mewn ysbyty)
- Llawdriniaethau achos dydd gynaecoleg, lle gall merch fynd adref yr un diwrnod â'r llawdriniaeth
- Llawdriniaethau gynaecoleg cleifion mewnol
- Llawdriniaethau canser gynaecoleg cymhleth a ddarperir yn bennaf ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd, lle mae ymgynghorwyr arbenigol

Mewn blwyddyn, mae oddeutu 1,700 o dderbyniadau gynaecoleg wedi'u trefnu ymlaen llaw a brys yn Ysbyty Maelor Wrecsam; 1,200 yn Ysbyty Glan Clwyd a 1,100 yn Ysbyty Gwynedd.

Gwasanaethau'r Newydd-anedig

Mae'r tri ysbyty yn darparu rhywfaint o ofal newydd-anedig, ond mae gwahaniaethau:

- Mae gan Ysbyty Gwynedd Uned Babanod Gofal Arbennig ac yn darparu rhywfaint o ofal dwys byrdymor pan fo angen
- Mae gan Ysbyty Glan Clwyd Uned Babanod Gofal Arbennig ac Uned Newydd-anedig Leol (sy'n cefnogi babanod sydd angen lefel uwch o ofal)
- Mae gan Ysbyty Maelor Wrecsam Uned Babanod Gofal Arbennig ac Uned Newydd-anedig Leol;
- Ers 2013, mae babanod sydd â'r lefel uchaf o anghenion gofal dwys cymhleth a hirdymor, wedi derbyn gofal yn Ysbyty Arrowe Park yng Nghilgwri.
- Rydym yn datblygu cynlluniau i ddod â rhywfaint o'r gofal dwys mwy arbenigol hwn yn ôl i ogledd Cymru, mewn datblygiad a elwir yn Ganolfan Gofal Dwys Newydd-anedig Isranbarthol (SuRNICC). Bydd y ganolfan hon yn Ysbyty Glan Clwyd. Rydym eisoes yn recriwtio staff ychwanegol at y tîm gwasanaethau newydd-anedig yn yr ysbyty. Rydym hefyd yn datblygu cynllun busnes ar gyfer costau datblygiad y Ganolfan. Dylai'r Ganolfan fod ar agor erbyn 2018.
- Mae gan Ysbyty Maelor Wrecsam wasanaeth meddygaeth ffetws ar gyfer babanod cyn eu geni

Bydd oddeutu 10% o fabanod a enir yng ngogledd Cymru angen rhywfaint o ofal newydd-anedig ar ôl eu geni; bydd cyfran o'r rhain angen gofal dibyniaeth uchel neu ofal dwys mewn uned newydd-anedig leol. Bydd nifer fechan iawn – oddeutu 36 baban y flwyddyn – angen gofal dwys cymhleth a thymor hirach, a ddarperir ar hyn o bryd yn Arrowe Park.

Gwasanaethau'r Fron

- Darperir sgrinio'r fron cyffredinol gan Bron Brawf Cymru mewn safleoedd cymunedol ar draws gogledd Cymru
- Darperir sgrinio ar gyfer merched gyda symptomau clefyd posibl yn Wrecsam a Llandudno
- Clinigau cleifion allanol y fron mynediad cyflym yn Llandudno a'r tri prif ysbyty
- Llawfeddyginiaethau'r fron a phrofion diagnostig ar gael yn y tri prif ysbyty
- Oncoplastig – llawfeddygaeth sy'n cynnwys rhywfaint o ail-lunio'r fron – darperir yn Ysbyty Glan Clwyd, ond mae rhai merched hefyd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Whiston, Glannau Merswy.

Bydd oddeutu 400 o bobl yn derbyn llawfeddygaeth y fron cleifion mewnol yn Ysbyty Maelor Wrecsam, 500 yn Ysbyty Glan Clwyd a 300 yn Ysbyty Gwynedd yn flynyddol.



Pam Rydym Ni'n Credu Bod Angen I Wasanaethau Newid

Bu trafodaethau ynghylch a oes modd i ni barhau i ddarparu gwasanaethau mamolaeth yn yr un modd ers peth amser. Yn 2012, mynegodd y Fforwm Clinigol Cenedlaethol - grŵp annibynnol o weithwyr clinigol proffesiynol ar draws Cymru "bryder difrifol ynghylch y gallu i ddarparu a chynnaladwyedd" gwasanaethau mamolaeth yn y tri ysbyty. Dywedodd y Fforwm bod y sefyllfa angen "ailfeddwl mawr" o ran hyfforddai yn darparu rhan fawr o'r rota ar alwad ac nid oes gan ogledd Cymru ddigon o enedigaethau i gyfiawnhau mwy na dau ganolfan hyfforddiant. Ar y pryd, gofynnodd y Bwrdd Iechyd i feddygon lleol a bydwagedd i geisio darganfod ffordd i barhau gyda gwasanaethau dan arweiniad ymgynghorwyr yn y tri ysbyty.

Tynnodd y Fforwm Clinigol Cenedlaethol sylw at y cyngor hwn eto yn 2013, pan gynhaliwyd trafodaethau pellach ar ddyfodol y gwasanaethau.

Amlygwyd risgiau pellach i'r gwasanaethau mamolaeth yng ngogledd Cymru yng Nghofrestr Risg y Bwrdd ym mis Hydref 2013. Trafodwyd y risgiau yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd Cyhoeddus.

Nodir y prif broblemau fel a ganlyn.

Staffio

Yng nghyflwyniad y ddogfen hon, disgrifiwyd sawl mater a phryderon sy'n ymwneud â staffio dros dro a'r risgiau mae'r rhain yn eu hachosi i sefydlogrwydd y gwasanaethau.

Rydym wedi gosod ein clicied ein hunain dylai cyfradd o fwy na 25% o staff meddygol dros dro weithredu fel rhybudd. Rydym yn derbyn mai dim ond canllaw all hyn fod i helpu hybu trafodaeth ehangach ynghylch effaith lefelau uchel o staff dros dro ar y gwasanaethau.

Erbyn Chwefror 2015, mae'r problemau gyda staffio rotas meddygon wedi bod yn arwyddocaol. Roedd y sefyllfa fel a ganlyn - mae'r ffigyrau'n cyfeirio at y nifer cyfatebol o swyddi llawn amser.

Ysbyty	Swyddi gwag – Chwefror 2015					
	Ymgynghorwyr		Graddfa ganol		"Cyntaf ar alwad"	
	% gwag	Swyddi gwag WTE	% gwag	Swyddi gwag WTE	% gwag	Swyddi gwag WTE
Ysbyty Maelor Wrecsam	0	0	42.2	3.8	0	0
Ysbyty Glan Clwyd	0	0	56.25	4.5	33.3	3
Ysbyty Gwynedd	0	0	33.3	3	22.2	2

Rydym wedi parhau i geisio recriwtio staff meddygol parhaol, ac rydym wedi recriwtio dau feddyg ymgynghorol yn ddiweddar. Fodd bynnag, dim ond y ddau feddyg newydd oedd yn cwrdd â'r safonau angenrheidiol ar gyfer penodiad llwyddiannus allan o'r 21 a ymgeisiodd am y swydd.

Yn ystod y flwyddyn Ebrill 2014 - Ebrill 2015 cafwyd 14 gwahanol hysbysebiad a phrosesau recriwtio ar gyfer amrywiol raddfeydd o swyddi gwag staff meddygol. Er yr hyn oll, nid ydym wedi llenwi'r holl swyddi gwag.

Rydym yn parhau i fod â gormod o staff dros dro – meddygon locwm ac asiantaethau. Erbyn Gorffennaf 2015, roedd 13 swydd wag graddfa ganol (43%) a 10 swydd wag meddyg "cyntaf ar alwad" (33%) ar draws gogledd Cymru. Mae hyn yn arwyddocaol uwch na'r cyfartalion cenedlaethol. Bu'r ymgeisiadau mwyaf diweddar i benodi mwy o feddygon graddfa ganol yn aflwyddiannus. Y sefyllfa ar 5ed Awst oedd:

Ysbyty	Swyddi gwag – Awst 2015					
	Ymgynghorwyr		Graddfa ganol		"Cyntaf ar alwad"	
	% gwag	Swyddi gwag WTE	% gwag	Swyddi gwag WTE	% gwag	Swyddi gwag WTE
Ysbyty Maelor Wrecsam	0	0	49	5.4	0	0
Ysbyty Glan Clwyd	0	0	43.75	3.5	43.75	3.5
Ysbyty Gwynedd	0	0	54.5	6	36.4	4

Noder: mae angen 8 meddyg graddfa ganol a 8 meddyg "cyntaf ar alwad" gan Ysbyty Glan Clwyd, tra bod angen 11 meddyg ar y ddau rota hwn gan Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Wrecsam Maelor i gyflawni gofynion y Ddeoniaeth i feddygon mewn hyfforddiant. Dyna pam y gall fod canrannau'n edrych yn debyg tra bod niferoedd y swyddi gwag yn wahanol.

Ymgymerir ag asesiadau risg dyddiol a darganfuwyd ar rai dyddiau, mai meddygon locwm oedd ar ddwy o'r lefelau rotas meddygon - felly roedd dau draean o'r staff meddygol ar ddyletswydd yn rhai dros dro.

Rydym yn parhau i hysbysebu a recriwtio staff meddygol. Yn Awst, byddwn yn cyfweld ar gyfer staff meddygol ymgynghorol ychwanegol i weithio fel preswylwyr ar alwad, yn lle swyddi graddfeydd canol. Os byddwn yn llwyddiannus, bydd hyn yn lleihau'r lefel bresennol o risg, ond byddwn yn parhau i fod â bylchau arwyddocaol yn y rotas meddygol.



Hyfforddiant

Ddeoniaeth Cymru yw'r corff sy'n gyfrifol am hyfforddi meddygon yng Nghymru.

Codwyd pryderon gan y Ddeoniaeth ynghylch hyfforddiant yn Ysbyty Glan Clwyd mor bell yn ôl â 2011. Ysgrifennodd yr hyfforddeion at y Ddeoniaeth i fynegi pryder ynghylch ansawdd yr hyfforddiant roeddent yn ei dderbyn. Yn dilyn cyfnod o chwe mis i geisio gwella'r sefyllfa, yn Ebrill 2014, daeth y Ddeoniaeth i'r penderfyniad na fyddai unrhyw hyfforddeion yn cael eu lleoli yn Ysbyty Glan Clwyd o Awst 2014.

Mae colli statws hyfforddi, gan fod y Ddeoniaeth o'r farn bod y profiad sy'n cael ei roi i'r hyfforddeion yn yr uned yn wael, yn peri pryder mawr i'r Bwrdd Iechyd. Gall peidio â bod yn uned sy'n cynnig hyfforddiant fod yn anfantais wrth geisio recriwtio staff.

Mesurau Ansawdd

Caiff nifer o fesurau ansawdd eu monitro'n rheolaidd ar gyfer y tri ysbyty fel rhan o adroddiad perfformiad y gwasanaethau mamolaeth. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau megis cyfraddau toriadau cesaraidd, cyfraddau heintiau a chyfraddau marwoldeb amenedigol (babanod a anwyd yn farw a babanod a fu farw o fewn wythnos o'u geni). Mae rhai o'r mesurau allweddol yn dangos ein bod angen gwella'r canlyniadau i famau a babanod o'n gwasanaethau. Er enghraifft, mewn rhai ardaloedd, mae mwy o doriadau Cesaraidd yn cael eu gwneud na'r targed cenedlaethol, ac mae gwahaniaethau mewn ardaloedd eraill o ran cyfraddau haint a chyfraddau geni'n farw.

Mae angen i ni ystyried pam bod y mesurau'n amrywio ar draws gogledd Cymru. Mae'n bosibl bod sawl rheswm dros y gwahaniaethau mewn perfformiad ac nid yw'r gwahaniaethau'n ystadegol arwyddocaol.

Mae adroddiadau meincnodi rheolaidd sy'n dangos y perfformiad presennol a'r tueddiadau dros amser. Pa bynnag ffordd y byddwn yn mynd i'r afael â'r problemau dan sylw, bydd y data yn cael ei fonitro ar sail barhaol a byddwn yn ceisio gwneud gwelliannau parhaus. Gellwch weld yr adroddiadau ansawdd a chanlyniadau ar y wefan yn www.cymru.nhs.uk/mamolaethgc

Yr Hyn Mae Arbenigwyr Clinigol Yn Ei Feddwl Am Yr Angen I Newid Dros Dro

Gwyddom fod gwahanol farn ymysg clinigwyr am y dewisiadau sy'n cael eu hystyried ac nid yw pawb yn cytuno gyda'r cynigion dros newidiadau gwasanaeth dros dro. Rydym yn deall bod pryderon ynghylch risgiau posibl yn codi o newidiadau tymor byr a bydd angen i'r Bwrdd Iechyd bwysu a mesur y risgiau posibl rhain yn erbyn y risgiau sy'n gysylltiedig â pheidio gwneud newidiadau.

Mae'r uwch dîm clinigol arweiniol yn y Bwrdd Iechyd yn hollol glir o ran cydnabod y pryderon am y gwasanaethau presennol a'r angen i ystyried newidiadau dros dro.

Mae sawl adroddiad gan arbenigwyr clinigol annibynnol o'r tu allan i'r Bwrdd Iechyd wedi codi pryderon yn benodol am y gwasanaeth yn Ysbyty Glan Clwyd. Cynhyrchwyd dau adroddiad gan Goleg Brenhinol Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr (RCOG) - y corff proffesiynol ar gyfer y gwasanaethau hyn. Yr adroddiadau yw:

- An investigation about concerns raised about the consultant medical team within Obstetrics and Gynaecology at Glan Clwyd Hospital (Steele, C, 2013)
- Review of Glan Clwyd Hospital (Griffiths, M; Ockenden, D a McDermott, R, Tachwedd 2013))

Mae copïau o'r adroddiadau ar gael ar y wefan yn www.cymru.nhs.uk/mamolaethgc

Amlygodd yr adroddiadau hyn sawl problem rydym wedi bod yn gweithio gyda'r tîm i fynd i'r afael â nhw. Mae'r rhain yn cynnwys, ymysg pethau eraill:

- Problemau cyfathrebu rhwng ymgynghorwyr a diffyg gwaith tîm
- Diffyg eglurder ynghylch cyfrifoldeb am gleifion
- Tanseilio arweinydd clinigol a thîm rheoli
- Ymatebion gohiriedig i gwynion
- Diffyg eglurder o ran goruchwyllo meddygon sy'n cael anawsterau
- Diffyg perchnogaeth problemau yn y tîm

Rydym hefyd wedi cyfeirio at farn y Fforwm Clinigol Cenedlaethol yn gynt yn y ddogfen hon.

Ym Mai 2015 ysgrifennodd Llywydd RCOG at y Bwrdd Iechyd yn mynegi pryderon "ynghylch yr oedi wrth weithredu'r newid gwasanaeth mewn gwasanaethau mamolaeth yn Ysbyty Glan Clwyd". Roedd y llythyr yn cydnabod yr angen i ddilyn prosesau priodol ond anogodd y Bwrdd Iechyd i symud yr argymhellion a amlinellwyd ymlaen.

Ysgrifennodd Coleg Brenhinol y Bydwagedd hefyd at y Bwrdd Iechyd i fynegi pryderon ym Mai 2015. Roedd y llythyr yn cyfeirio ymysg pethau eraill at bryderon proffesiynol am staff yn parhau i weithio mewn gwasanaeth a all fod yn anniogel a bod y mesurau a roddwyd yn eu lle i gadw gwasanaethau ar fynd ar y tri safle yn anghynladwy.

Mae'r Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth wedi ymgymryd ag adolygiad anghyffredin yn ddiweddar. Byddant yn rhannu canlyniadau eu gwaith gyda ni o fewn yr ychydig wythnosau nesaf. Byddwn yn cyhoeddi'r adborth hwn cyn gynted ag y bydd ar gael.

Rydym yn credu na ellir anwybyddu barn y cyrff proffesiynol a'r arweinwyr clinigol o fewn a thu allan y Bwrdd Iechyd – mae gormod i'w golli.

Yr Opsiynau Rydym Yn Eu Hystyried

Rydym wedi ystyried nifer o wahanol ffyrdd o fynd i'r afael â'r problemau. Rydym wedi bod yn siarad â chynrychiolwyr gwahanol grwpiau ers cryn amser am ddyfodol y gwasanaethau. Rydym wedi defnyddio'r trafodaethau rydym wedi'u cael yn flaenorol i helpu hysbysu barnau rydym wedi'u hystyried.

Rydym wedi diystyru rhai opsiynau. I ddechrau, rydym wedi diystyru'r syniad o ganolbwyntio'r holl wasanaethau dan arweiniad meddygon ymgynghorol mewn un ysbyty. Ni fyddai digon o gapasiti i ymdopi â'r holl weithgarwch heb waith adeiladu mawr nad yw'n bosibl yn y tymor byr.

Mae trefniadau mewn rhai ardaloedd eraill sydd â meddygol ymgynghorol yn cefnogi unedau llai dan arweiniad bydwagedd, drwy rota ar alwad sy'n rhoi gwasanaeth pan fo angen. Fodd bynnag, nid ydym yn credu byddai hyn yn helpu problemau staffio.

Mae'r opsiynau newid dros dro y gallwn eu hystyried wedi'u nodi isod. Dangosir pob un o'r gwahanol ddewisiadau ar ffurf tabl. O dan hwn, mae crynodeb o rai materion allweddol ynghylch yr opsiynau.

Disgrifiad o'r Opsiynau

Allwedd:

- ✓ gwasanaeth ar gael fel nawr neu gynnydd
- ✓ gwasanaeth ar gael ond lleihau lefelau dros dro
- ✗ gwasanaeth ddim ar gael dros dro


Mae'r niferoedd a ddyfynnir yn cyfeirio at niferoedd bob blwyddyn.

Opsiwn 1 – gwasanaethau yn aros fel ag y maent a byddwn yn parhau i reoli risgiau a materion presennol drwy staffio meddygol a gwaith tîm

Rydym o'r farn bod Opsiwn 1 yn ansefydlog ac na fydd yn caniatáu i ni reoli'r risgiau presennol i famau a babanod yn y tymor byr

O dan yr opsiwn hwn, caiff y gwasanaethau eu darparu fel y'u hamlinellir yn y tabl isod:

Gwasanaeth	Ysbyty Gwynedd	Ysbyty Glan Clwyd	Ysbyty Maelor Wrecsam
Uned Dan Arweiniad Bydwagedd	✓	✓	✓
Gwasanaeth Dan Arweiniad Meddygon Ymgynghorol	✓	✓	✓
Gynaecoleg Brys A Chleifion Mewnol	✓	✓	✓
Gynaecoleg Achosion Dydd A Chleifion Allanol	✓	✓	✓
Gofal Newydd-Anedig	✓	✓	✓
Llawfeddygaeth Y Fron Cleifion Mewnol	✓	✓	✓
Cleifion Allanol Y Fron Ac Achosion Dydd	✓	✓	✓



Mae maint y cylchoedd yn nodi nifer y babanod, yn fras, sy'n cael eu geni ym mhob lleoliad.

Prif Faterion yn Ymwneud â'r Opsiwn Hwn

Ansawdd a diogelwch

- Mamau mewn Unedau dan arweiniad Bydwagedd 'ochr yn ochr' â mynediad ar y safle at feddygon ymgynghorol os bydd angen
- Risgiau i sefydlogrwydd gwasanaethau yn sgil prinder meddygon a dibynadwyaeth ar staff dros dro yn y tymor byr
- Risg ad hoc o gau unedau a throsglwyddiad brys mamau
- Risg o beidio cael digon o feddygon ar gyfer darparu gwasanaeth yn y ward esgor
- Risg o effaith croes ar lawfeddygaeth gynaeolegol a gynlluniwyd i ryddhau cyflenwad ar gyfer wardiau esgor

Effaith ar Gleifion

- Dim newid i leoliad gwasanaethau presennol, felly dim teithio ychwanegol i famau sy'n esgor
- Dim teithio ychwanegol i bartneriaid, teuluoedd neu ofalwyr defnyddwyr unrhyw un o'r gwasanaethau a effeithiwyd o bosibl
- Risg posibl i ddiogelwch mamau a babanod fel y nodwyd yn gynharach

Gweithlu

- Cyflawnwyd 'Birthrate Plus' (offer cenedlaethol a ddefnyddir i gyfrifo lefelau staffio bydwagedd)
- Byddai cynnal gwasanaethau mamolaeth presennol yng Nglan Clwyd yn ffitio gyda'r ymroddiad tymor hirach i ddatblygu'r SuRNICC ac osgoi unrhyw risgiau i recriwtio
- Dibyniaeth barhaus ar staff dros dro (locwm ac asiantaeth)
- Dim ond Ysbyty Maelor Wrecsam fyddai â mwy na 2,500 genedigaeth y flwyddyn
 - Dyma yw gofyniad hyfforddiant y Ddeoniaeth – risg i'r gallu i gadw hyfforddeion yn Ysbyty Gwynedd
 - Canllawiau RCOG yn argymhell dylai unedau obstetreg fod â 2,500 genedigaeth y flwyddyn, ond gallai unedau llai gydweithio fel rhwydwaith

Mynediad

Amser gyrru i'r boblogaeth at wasanaeth mamolaeth dan arweiniad ymgynghorydd agosaf:


O fewn 30 munud	80.4%
O fewn 60 munud	98.7%
O fewn 60-90 munud	1.3%
Dros 90 munud	0.0%

Mynediad at wasanaeth wedi'i gynnal fel y mae nawr.

Opsiwn 2- newid dros dro i wasanaethau mamolaeth yn Ysbyty Maelor Wrecsam

O dan yr opsiwn hwn, caiff y gwasanaethau eu darparu fel y'u hamlinellir yn y tabl isod:

Gwasanaeth	Ysbyty Gwynedd	Ysbyty Glan Clwyd	Ysbyty Maelor Wrecsam
Uned Dan Arweiniad Bydwragedd	✓	✓	✓
Gwasanaeth Dan Arweiniad Meddygon Ymgynghorol	✓	✓	✗
Gynaecoleg Brys A Chleifion Mewnol	✓	✓	✗
Gynaecoleg Achosion Dydd A Chleifion Allanol	✓	✓	✓
Gofal Newydd-Anedig	✓	✓	✓
Llawfeddygaeth Y Fron Cleifion Mewnol	✗	✗	✓
Cleifion Allanol Y Fron Ac Achosion Dydd	✓	✓	✓



Mae maint y cylchoedd yn nodi nifer y babanod, yn fras, sy'n cael eu geni ym mhob lleoliad.

Yn y sefyllfa hon, bydd mamau a fyddai'n rhoi genedigaeth fel arfer yn Ysbyty Maelor Wrecsam yn trosglwyddo i Ysbyty Glan Clwyd; ond byddai rhyw 1,000 o'r mamau hyn yn agosach at Ysbyty Iarlles Caer ac, felly byddent yn debygol o eni eu babanod yno. Byddai gofal cyn-genï ac ôl-eni yn parhau i gael ei gynnig gan fydwragedd yng ngogledd Cymru fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Yn ogystal, byddai rhyw 1,700 o gleifion gynaeoleg achosion brys a chleifion mewnol yn trosglwyddo o Wrecsam. Câi'r holl wasanaethau gynaeoleg i gleifion mewnol o dan yr opsiwn hwn eu darparu o Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Glan Clwyd.

Byddai rhyw 800 o gleifion mewnol llawdriniaeth y fron yn symud i Ysbyty Maelor Wrecsam o Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Gwynedd.

Ansawdd a diogelwch

- Meddygon digonol i gyrraedd safonau cyflenwi ar wardiau esgor heb effeithio ar gapasiti am lawdriniaeth gynaeoleg arfaethedig
- Dewis lle i roi geni ar gyfer merched â beichiogrwydd rhwydd
- Eir i'r afael â risgiau i sefydlogrwydd gwasanaethau trwy brinder meddygon a dibyniaeth staff dros dro yn y tymor byr
- Mae risg o gau unedau ar sail ad hoc a throsglwyddo mamau'n lleihau
- Byddai angen trosglwyddo trwy ambiwlans mewn sefyllfa frys yn ymwneud â gwasanaethau mamolaeth a gynaeoleg

Mae tystiolaeth genedlaethol yn awgrymu y byddai angen i nifer fach o ferched sy'n mynd i Uned Arunig gan Arweiniad Bydwagedd drosglwyddo i uned dan arweiniad meddygon ymgynghorol (llai na 1% o enedigaethau mewn achos brys - ond, mae hon yn risg y mae'n rhaid ei hystyried)

Effaith ar gleifion

- Teithio ychwanegol i famau o ardal y dwyrain er mwyn cyrraedd yr uned dan arweiniad meddygon ymgynghorol yn Ysbyty Glan Clwyd (ond byddai rhyw 98% o'r boblogaeth yn dal i fod o fewn taith 60 munud mewn car o Uned dan arweiniad Meddygon Ymgynghorol - gweler isod)
- Teithio ychwanegol i bartneriaid a theuluoedd
- Effaith ar famau o Bowys a Sir Amwythig sy'n defnyddio Ysbyty Maelor Wrecsam
- Mae ardaloedd o amddifadedd (anghenion mawr) mewn rhannau o Wrecsam a Sir y Fflint. Gallai symud gwasanaethau gael effaith fawr ar y boblogaeth hon
- Byddai lleihad yn lefel gofal y newydd-anedig i gael ei ddarparu yn Ysbyty Maelor Wrecsam, gyda chynnydd yn nifer y babanod sy'n derbyn gofal yn Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Iarlles Caer.
- Pe bai angen triniaeth gynaeolegol frys ar ferch a fyddai'n mynd i Ysbyty Maelor Wrecsam, byddai ei throsglwyddo trwy ambiwlans 999 yn mynd â hi'n syth i'r gwasanaeth brys yn Ysbyty Glan Clwyd neu Iarlles Caer
- Byddai canoli llawdriniaeth y fron yn Ysbyty Maelor Wrecsam yn golygu teithio cynyddol sylweddol i gleifion mewnol llawdriniaeth y fron, yn enwedig o ardal y Gorllewin

Gweithlu

- Lleihau dibyniaeth ar staff dros dro (staff locwm a staff asiantaeth)
- Sicrhau Birthrate Plas (sef yr offeryn cenedlaethol sy'n cael ei ddefnyddio i gyfrifo lefelau staffio bydwagedd)
- Dim ond Ysbyty Glan Clwyd fyddai â mwy na 2,500 o enedigaethau y flwyddyn
 - Hwn yw gofyniad Deoniaeth Cymru o ran hyfforddiant - fodd bynnag, nid oes unrhyw hyfforddeion yn cael eu dyrannu i Ysbyty Glan Clwyd ar hyn o bryd
 - mae canllawiau Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr yn argymhell bod unedau obstetrig yn cael 2,500 o enedigaethau y flwyddyn, ond gall unedau llai weithio gyda'i gilydd fel rhwydwaith
- Byddai cynyddu gwasanaethau mamolaeth o dan arweiniad meddygon ymgynghorol yn Ysbyty Glan Clwyd yn cydblethu â'r ymrwymiad yn y tymor hwy i ddatblygu gwasanaeth obstetreg o'r radd flaenaf a'r SuRNICC

Ymarferoldeb darparu

- Mae'r opsiwn hwn yn gofyn am gapasiti am ddwy ystafell esgor a 17 o welyau cyn-geni ac ôl-enedigol yn Ysbyty Glan Clwyd
- Mae gan yr uned bresennol yn Ysbyty Glan Clwyd gapasiti am un ystafell esgor ychwanegol ac wyth gwely ychwanegol os oes modd adleoli gwasanaethau anghlinigol sy'n bodoli eisoes. Bydd angen gwaith cyfalaf i sicrhau bod cydbwysedd y gallu sydd ei angen o dan yr opsiwn hwn ar gael
- Mae nodi manau clinigol priodol ac ymgymryd â gwaith cyfalaf i adleoli gwasanaethau ar safle Ysbyty Glan Clwyd yn heriol oherwydd y rhaglen ailddatblygu. Byddai'r angen am waith cyfalaf yn effeithio ar pa mor gyflym y gellir rhoi newidiadau ar waith
- Mewn trafodaethau ynghylch capasiti yn Ysbyty Iarlles Caer, mae'r Ymddiriedolaeth wedi nodi bod modd creu capasiti ychwanegol dros dro ar gyfer 1,000 o esgoriadau. Mae hyn yn golygu bod gofyn recriwtio staff a gwaith mân a fyddai'n golygu y byddai'n cymryd hyd at wyth wythnos ar ôl gwneud unrhyw benderfyniad i roi'r opsiwn hwn ar waith

- Gallai fod modd delio â newidiadau i wasanaethau gynaeoleg a llawdriniaeth y fron i gleifion mewnol gyda'r capasiti gwelyau a theatr sy'n bodoli eisoes.

Mynediad

- Câi cleifion eu cludo trwy gludiant ambiwlans pwrpasol i gefnogi merched a babanod yn y sefyllfa hon. Mae trafodaethau wedi'u cynnal eisoes i gadarnhau y gallai'r gwasanaeth hwn fod yn ei le yn gyflym


Amser gyrru i'r boblogaeth gyrraedd y gwasanaeth obstetrig dan arweiniad meddygon ymgynghorol agosaf:

O fewn 30 munud	70.2%
O fewn 60 munud	98.2%
O fewn 60-90 munud	1.8%
Dros 90 munud	(none)

Opsiwn 3 - newid dros dro i wasanaethau mamolaeth yn Ysbyty Gwynedd

O dan yr opsiwn hwn, caiff y gwasanaethau eu darparu fel y'u hamlinellir yn y tabl isod:

Gwasanaeth	Ysbyty Gwynedd	Ysbyty Glan Clwyd	Ysbyty Maelor Wrecsam
Uned Dan Arweiniad Bydwagedd	✓	✓	✓
Gwasanaeth Dan Arweiniad Meddygon Ymgynghorol	✗	✓	✓
Gynaeoleg Brys A Chleifion Mewnol	✗	✓	✓
Gynaeoleg Achosion Dydd A Chleifion Allanol	✓	✓	✓
Gofal Newydd-Anedig	✓	✓	✓
Llawfeddygaeth Y Fron Cleifion Mewnol	✓	✗	✗
Cleifion Allanol Y Fron Ac Achosion Dydd	✓	✓	✓



Mae maint y cylchoedd yn nodi nifer y babanod, yn fras, sy'n cael eu geni ym mhob lleoliad.

Yn ogystal, câi rhyw 1,100 o gleifion gynaeoleg achosion brys a chleifion mewnol eu symud o Ysbyty Gwynedd gan gynnwys llawdriniaeth arbenigol ar gyfer canser gynaeolegol. Câi'r holl wasanaethau gynaeoleg i gleifion mewnol o dan yr opsiwn hwn eu darparu o Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Maelor Wrecsam.

Byddai rhyw 900 o gleifion mewnol llawdriniaeth y fron yn symud i Ysbyty Gwynedd o Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Maelor Wrecsam.

Ansawdd a diogelwch

- Meddygon digonol i gyrraedd safonau cyflenwi ar wardiau esgor heb effeithio ar gapasiti am lawdriniaeth gynaeoleg arfaethedig
- Dewis lle i roi geni ar gyfer merched â beichiogrwydd syml
- Eir i'r afael â risgiau i sefydlogrwydd gwasanaethau trwy brinder meddygon a dibyniaeth staff dros dro yn y tymor byr
- Mae risg o gau unedau ar sail ad hoc a throsglwyddo mamau'n lleihau
- Byddai angen trosglwyddo trwy ambiwlans mewn sefyllfa frys yn ymwneud â mamolaeth a gynaeoleg
 - Mae tystiolaeth genedlaethol yn awgrymu y byddai angen i nifer fach o ferched sy'n mynd i Uned Arunig gan Arweiniad Bydwagedd drosglwyddo i Uned dan arweiniad Meddygon Teulu (llai na 1% o enedigaethau mewn achos brys - ond, mae hon yn risg y mae'n rhaid ei hystyried

Effaith ar Gleifion

- Teithio ychwanegol i famau o ardal y Gorllewin er mwyn cyrraedd yr Uned dan arweiniad Meddygon Ymgynghorol yn Ysbyty Glan Clwyd - a dim ond 79.4% o'r boblogaeth fyddai'n dal i fod o fewn taith 60 munud mewn car o Uned dan arweiniad Meddygon Ymgynghorol - gweler isod
- Teithio ychwanegol i bartneriaid a theuluoedd o ardal â mynediad cymharol wael at gludiant cyhoeddus
- Mae ardaloedd o amddifadedd (anghenion mawr) mewn rhannau o Wunedd ac Ynys Môn a gallai symud gwasanaethau gael effaith fawr ar y boblogaeth hon
- Byddai lleihad yn lefel gofal y newydd-anedig i gael ei ddarparu yn Ysbyty Gwynedd, gyda chynnydd yn nifer y babanod i dderbyn gofal yn Ysbyty Glan Clwyd

Gweithlu

- Lleihau dibyniaeth ar staff dros dro (staff locwm a staff asiantaeth)
- Sicrhau Birthrate Plas (sef yr offeryn cenedlaethol sy'n cael ei ddefnyddio i gyfrifo lefelau staffio bydwagedd)
- Byddai Glan Clwyd ac Ysbyty Maelor Wrecsam yn cael mwy na 2,500 o enedigaethau'r flwyddyn
 - Gofyniad Deoniaeth Cymru yw hwn ar gyfer hyfforddiant - fodd bynnag, nid oes unrhyw hyfforddeion yn cael eu dyrannu i Ysbyty Glan Clwyd ar hyn o bryd: mae risg hefyd na fydd Ysbyty Gwynedd yn gallu cadw hyfforddeion
 - mae canllawiau Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaeolegwyr yn argymhell bod unedau obstetrig yn cael 2,500 o enedigaethau y flwyddyn, ond gall unedau llai weithio gyda'i gilydd fel rhwydwaith
- Byddai canoli llawdriniaeth y fron yn Ysbyty Gwynedd yn golygu cynnydd sylweddol mewn teithiau i gleifion gwasanaethau'r fron
- Byddai cynyddu gwasanaethau mamolaeth o dan arweiniad meddygon ymgynghorol yn Ysbyty Glan Clwyd yn cydblethu â'r ymrwymiad yn y tymor hwy i ddatblygu gwasanaeth obstetreg o'r radd flaenaf a'r SuRNICC

Ymarferoldeb darparu

- Mae'r opsiwn hwn yn gofyn am gapasiti am bedair ystafell esgor a 19 o welyau cyn-genï ac ôl-eni yn Ysbyty Glan Clwyd

- Mae gan yr uned bresennol yn Ysbyty Glan Clwyd gapasiti am un ystafell esgor ychwanegol ac wyth gwely ychwanegol os oes modd adleoli gwasanaethau anghlinigol sy'n bodoli eisoes. Bydd angen gwaith cyfalaf i sicrhau bod cydbwysedd y gallu sydd ei angen o dan y dewis hwn ar gael
- Mae nodi mannau clinigol priodol ac ymgymryd â gwaith cyfalaf i adleoli gwasanaethau ar safle Ysbyty Glan Clwyd yn heriol oherwydd y rhaglen ailddatblygu. Byddai'r angen am waith cyfalaf yn effeithio ar pa mor gyflym y gellir rhoi newidiadau ar waith.
- Mae modd delio â newidiadau i wasanaethau gynaeoleg a llawdriniaeth y fron i gleifion mewnol gyda'r capasiti gwelyau a theatr sy'n bodoli eisoes.

Mynediad

- Câi cleifion eu cludo trwy gludiant ambiwlans pwrpasol i gefnogi merched a babanod yn y sefyllfa hon. Mae trafodaethau wedi'u cynnal eisoes i gadarnhau y gallai'r gwasanaeth hwn fod yn ei le yn gyflym
- Cynnydd sylweddol mewn amseroedd gyrru i'r gwasanaeth agosaf dan arweiniad meddygon ymgynghorol yn yr ardal wledig hon. Yr opsiwn hwn yw'r unig senario lle bydd amseroedd gyrru dros 60 munud yn cynyddu'n sylweddol

Amser gyrru i'r boblogaeth gyrraedd y gwasanaeth mamolaeth dan arweiniad meddygon ymgynghorol agosaf:


O fewn 30 munud	63.8%
O fewn 60 munud	79.4%
O fewn 60-90 munud	15.6%
Dros 90 munud	5.0%

Opsiwn 4 - Newid dros dro i wasanaethau mamolaeth yn Ysbyty Glan Clwyd

Rydym o'r farn mai'r opsiwn sy'n cael y lleiaf o effaith cyffredinol sylweddol ar deithio, sydd â'r lleiaf o effaith ar wasanaethau eraill a gall ei roi yn ei le yn gynt yw opsiwn 4. Felly dyma'r opsiwn a ffafrir gan y Bwrdd ar hyn o bryd.

O dan yr opsiwn hwn, caiff y gwasanaethau eu darparu fel y'u hamlinellir yn y tabl isod:

Gwasanaeth	Ysbyty Gwynedd	Ysbyty Glan Clwyd	Ysbyty Maelor Wrecsam
Uned Dan Arweiniad Bydwagedd	✓	✓	✓
Gwasanaeth Dan Arweiniad Meddygon Ymgynghorol	✓	✗	✓
Gynaeoleg Brys A Chleifion Mewnol	✓	✗	✓
Gynaeoleg Achosion Dydd A Chleifion Allanol	✓	✓	✓
Gofal Newydd-Anedig	✓	✓	✓
Llawfeddygaeth Y Fron Cleifion Mewnol	✗	✓	✗
Cleifion Allanol Y Fron Ac Achosion Dydd	✓	✓	✓



Mae maint y cylchoedd yn nodi nifer y babanod, yn fras, sy'n cael eu geni ym mhob lleoliad.

Byddai rhyw 300 o gleifion gynaeoleg achosion brys a chleifion mewnol yn symud i Ysbyty Gwynedd a byddai 900 ohonynt yn symud i Ysbyty Maelor Wrecsam.

Byddai rhyw 700 o gleifion mewnol llawdriniaeth y fron yn symud i Ysbyty Glan Clwyd o Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Maelor Wrecsam.

Ansawdd a diogelwch

- Meddygon digonol i gyrraedd safonau cyflenwi ar wardiau esgor heb effeithio ar gapasiti am lawdriniaeth gynaeoleg arfaethedig
- Dewis lle i roi geni ar gyfer merched â beichiogrwydd rhwydd
- Eir i'r afael â risgiau i sefydlogrwydd gwasanaethau trwy brinder meddygon a dibyniaeth staff dros dro yn y tymor byr
- Mae risg o gau unedau ar sail ad hoc a throsglwyddo mamau'n lleihau
- Byddai angen trosglwyddo trwy ambiwlans mewn sefyllfa frys yn ymwneud â mamolaeth a gynaeoleg
 - Mae tystiolaeth genedlaethol yn awgrymu y byddai angen i nifer fach o ferched sy'n mynd i Uned Arunig gan Arweiniad Bydwagedd drosglwyddo i uned dan arweiniad meddygon teulu (llai na 1% o enedigaethau mewn achos brys - ond, mae hon yn risg y mae'n rhaid ei hystyried wrth asesu cydbwysedd risg)

Effaith ar Gleifion

- Teithio ychwanegol i famau o ardal y Canol er mwyn cyrraedd yr Unedau dan arweiniad Meddygon Ymgynghorol yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Maelor Wrecsam (ond byddai rhyw 98.7% o'r boblogaeth yn dal i fod o fewn taith 60 munud mewn car o Uned dan arweiniad Meddygon Ymgynghorol - gweler isod)
- Byddai lleihad yn lefel gofal y newydd-anedig i gael ei ddarparu yn Ysbyty Glan Clwyd, gyda chynnydd yn nifer y babanod sy'n derbyn gofal yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Maelor Wrecsam.
- Teithio ychwanegol i bartneriaid a theuluoedd
- Mae ardaloedd o amddifadedd (anghenion mawr) mewn rhannau o Gonwy a Sir Ddinbych a gallai symud gwasanaethau gael effaith fawr ar y boblogaeth hon. Mae lefelau isel o berchnogaeth ceir, yn enwedig yn Y Rhyl
- Mae nifer fawr o fabanod yn cael eu geni â phwysau isel yng Ngorllewin y Rhyl

Gweithlu

- Lleihau dibyniaeth ar staff dros dro (staff locwm a staff asiantaeth)
- Sicrhau Birthrate Plas (sef yr offeryn cenedlaethol sy'n cael ei ddefnyddio i gyfrifo lefelau staffio bydwagedd)
- Byddai'r ddau ysbyty hyfforddi'n gweld mwy na 2,500 o enedigaethau'r flwyddyn
 - Gofyniad Deoniaeth Cymru o ran hyfforddiant yw hwn
 - Mae canllawiau Coleg Brenhinol yr Obstetregwyr a Gynaeolegwyr yn argymhell bod unedau obstetreg yn cael 2,500 o enedigaethau'r flwyddyn, ond gallai unedau llai weithio gyda'i gilydd fel rhwydwaith

- Byddai canoli llawdriniaeth y fron yn Ysbyty Glan Clwyd yn golygu bod angen capasiti llawfeddygon cyffredinol yn Ysbyty Maelor Wrecsam, gan fod y ddau lawfeddyg y fron ar y rota lawfeddygol gyffredinol
- Mae pryderon ynghylch risg bosibl i recriwtio o ran y SuRNICC pe câi gwasanaethau obstetrig dan arweiniad meddygon ymgynghorol eu symud dros dro i ffwrdd o Ysbyty Glan Clwyd

Ymarferoldeb darparu

- Mae capasiti'n bodoli yn Ysbyty Gwynedd ac yn Ysbyty Maelor Wrecsam i ddarparu'r gweithgarwch ychwanegol sydd ei angen fel rhan o'r dewis hwn heb wneud gwaith cyfalaf ychwanegol. Mae ystafelloedd esgor yn eu lle ac mae lle ychwanegol ar y ward am 13 gwely yn Ysbyty Gwynedd a 12 gwely yn Ysbyty Maelor Wrecsam ar gael
- Mae modd delio â newidiadau i wasanaethau gynaeoleg a llawdriniaeth y fron i gleifion mewnol gyda'r capasiti gwelyau a theatr sy'n bodoli eisoes.

Mynediad

- Mae lefelau sylweddol o bryder wedi'u mynegi gan bobl leol a chlinigwyr y byddai effaith anghymesur ar y cymunedau hynny â lefelau uwch o angen economaidd-gymdeithasol yn ardal Sir Ddinbych, yn benodol.
- Câi cleifion eu cludo trwy gludiant ambiwlans pwrpasol i gefnogi merched a babanod fel rhan o'r dewis hwn. Mae trafodaethau wedi'u cynnal eisoes i gadarnhau y gallai'r gwasanaeth hwn fod yn ei le yn gyflym

Amser gyrru i'r boblogaeth gyrraedd y gwasanaeth mamolaeth dan arweiniad meddygon ymgynghorol agosaf:

O fewn 30 munud	56.3%
O fewn 60 munud	98.7%
O fewn 60 - 90 munud	1.3%
Dros 90 munud	(none)





Beth Rydych Wedi'i Ddweud Wrthym Eisoes Am Newidiadau Dros Dro Posibl

Fe ddywedsoch ni...	Ein hymateb ni....
<p>Cludiant a Theithio Mae pellter teithio i wasanaeth dan arweiniad meddygon ymgynghorol wedi'i godi fel pryder yn ymwneud â diogelwch os caiff newidiadau eu gwneud.</p> <p>Mae'r anhawster i deuluoedd gael cludiant er mwyn ymweld wedi'i godi hefyd. Mae lefelau perchnogaeth ceir mewn rhai rhannau o Ogledd Cymru yn isel ac nid yw cludiant cyhoeddus bob amser ar gael yn hawdd. Mae rhai pobl yn ei chael hi'n anos defnyddio cludiant preifat neu gyhoeddus - fel y rhai ag anawsterau symudedd.</p>	<p>Rydym yn parhau i adolygu'r dystiolaeth yn ymwneud â theithio a phellter er mwyn sicrhau ein bod yn ystyried y goblygiadau'n llawn wrth i ni wneud penderfyniadau. Mae nifer fach iawn o enedigaethau lle y byddai angen trosglwyddo o Uned dan arweiniad Bydwagedd i Uned dan arweiniad Meddygon Ymgynghorol mewn amgylchiadau a allai fod yn berygl bywyd - rhyw 5 neu 6 o enedigaethau'r flwyddyn. Fodd bynnag, mae'r risg yn ddifrifol a byddem yn rhoi mesurau diogelu yn eu lle trwy wasanaethau trosglwyddo arbenigol er mwyn helpu i fynd i'r afael â hyn. Rydym eisoes wedi cadarnhau gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru a darparwyr eraill bod modd darparu cludiant brys arbenigol.</p> <p>Rydym eisoes wedi ystyried cymorth posibl trwy drafod gyda'r Gymdeithas Gludiant Cymunedol yng Ngogledd Cymru a darparwyr trydydd sector eraill a byddwn yn gwneud gwaith pellach yn ystod yr ymgynghoriad. Bydd hyn yn cynnwys mapio goblygiadau teithio a chludiant yn fanylach cyn i benderfyniadau gael eu gwneud</p>
<p>Cymorth i deuluoedd Mae rhai o'r ardaloedd y gallai fod wedi cael eu heffeithio gan newidiadau dros dro posibl wedi'u cydnabod fel rhai sydd â lefelau angen mawr (amddifadedd cymdeithasol), gan gynnwys teuluoedd ar incwm isel. Gallai hyn olygu bod costau teithio ychwanegol yn anodd</p>	<p>Fel uchod, rydym wedi ystyried a nodi ffyrdd o wella cludiant, gwybodaeth, argaeledd a chymorth ariannol.</p>

<p>Llety i bartneriaid a theuluoedd Efallai y bydd angen llety ar bartneriaid a theuluoedd ger yr ysbyty os caiff newidiadau eu gwneud ac os bydd angen teithio cryn dipyn ymhellach.</p>	<p>Deallwn y gallai partneriaid a'u teuluoedd fod yn awyddus i aros yn agos at y fam a'r babi ac rydym wedi nodi ffyrdd o helpu gyda hyn, fel gwneud trefniadau gyda gwestai lleol a mwy o lety i deuluoedd ar y safle.</p>
<p>Anghenion penodol grwpiau sy'n agored i niwed Efallai y bydd angen cymorth ychwanegol ar rai grwpiau yn ein cymunedau i ddeall unrhyw newidiadau dros dro ac er mwyn iddynt allu cael mynediad priodol at wasanaethau</p>	<p>Byddwn yn adeiladu ar waith ar yr Aseiad Effaith Cydraddoldeb mewn perthynas â nodweddion gwarchoddedig penodol a byddwn yn ystyried y ffordd orau y gallwn gynnig cymorth a mynd i'r afael ag unrhyw effeithiau negyddol a nodir. Byddwn hefyd yn gweithio trwy staff arbenigol, fel gwasanaeth arbenigol camddefnyddio sylweddau dan arweiniad Bydwagedd</p>

Dadansoddiad Pellach O'r Opsiynau

Mesurau byrdymor yw'r rhain er mwyn mynd i'r afael â'r risgiau presennol o ran y gwasanaethau. Mae arwydd cychwynnol o rai o effeithiau allweddol yr opsiynau wedi'i roi uchod. Rydym o'r farn mai'r opsiwn sy'n cael y lleiaf o effaith cyffredinol sylweddol ar deithio, sydd â'r lleiaf o effaith ar wasanaethau eraill a gall ei roi yn ei le yn gynt yw **Opsiwn 4**.

Caiff pob un o'r opsiynau eu gwerthuso'n fwy cyflawn wrth i ni dderbyn tystiolaeth a gwybodaeth gan y cyhoedd a rhanddeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad ac wrth i ni gael mwy o fanylion am gyllid a chynlluniau gweithredu posibl. Byddwn yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn ystod yr ymgynghoriad fel y caiff ei nodi.

Sut Byddwn Yn Asesu'r Opsiynau

Am y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi bod yn siarad â staff clinigol, sefydliadau partner a chynrychiolwyr grwpiau cymunedol am ba ffactorau y dylem eu hystyried wrth asesu cynigion ar gyfer newid. Mae'n bwysig i ni gael dealltwriaeth eglur am beth sy'n bwysig o ran datblygu gwasanaethau, i'r bobl sy'n eu defnyddio, eu teuluoedd a'r bobl rydym yn gweithio gyda nhw.

Y mesurau rydym wedi'u trafod a'u datblygu yw:

Ansawdd a diogelwch - gwasanaethau yn cyrraedd safonau, yn lleihau risgiau i gleifion a bod cleifion yn cael profiad da

Cynladwyedd - bod gwelliant sylweddol o ran ein gallu i reoli risg yn ystod y cyfnod o ddarparu gwasanaeth dros dro

Darparu- bod modd i ni ddarparu'r hyn rydym wedi ymrwymo i'w ddarparu

Hygyrchedd - bod gwasanaethau ar gael yn yr un modd i bawb, bod modd eu cyrraedd ac ar yr adeg y bydd eu hangen.

Mae angen i ni ystyried pa mor fforddiadwy yw'r cynigion hefyd, ond mae'n hollbwysig bod gennym y gwasanaethau gorau posibl y gallwn eu darparu gyda'r adnoddau sydd gennym.

Yr Effaith Ariannol

Nid yw'r newidiadau dros dro rydym yn eu hystyried oherwydd cyllid - maent yn ymateb i'n pryderon ynghylch ansawdd a diogelwch. Mae'n rhaid i ddiogelwch a lles mamau a babanod fod yn flaenoriaeth bennaf.

Rhyw £30 miliwn yw cyfanswm y gyllideb ar gyfer gwasanaethau merched (obstetreg a gynaeocol) ar draws Gogledd Cymru.

Oherwydd y nifer is o hyfforddeion sy'n cael eu dyrannu i'r gwasanaeth dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Bwrdd lechyd eisoes wedi buddsoddi rhyw £2.6 miliwn mewn swyddi meddygon ychwanegol i gynnal y gwasanaeth a chaiff llawer o swyddi eu llenwi gan feddygon locwm dros dro.

Mae gwaith rydym wedi'i wneud ar fodolau gwasanaeth posibl yn y dyfodol yn dangos yn y tymor hwy, y gallai fod angen i ni gynnal lefel buddsoddi am tua'r un swm er mwyn cyrraedd yr holl safonau ansawdd.

Mae cost ychwanegol newidiadau posibl i lawdriniaeth y fron yn debygol o fod yn llai sylweddol, llai na £0.5 miliwn.

Byddai angen rhai costau cyfalaf ychwanegol i ddatblygu'r manau ychwanegol angenrheidiol er mwyn ymdopi â newidiadau i wasanaethau merched. Mae graddfa hyn yn debygol o fod yn wahanol ym mhob dewis.

Yn ystod yr ymgynghoriad, bydd y Bwrdd lechyd yn darparu costau yn ymwneud â refferniw a chyfalaf er mwyn ein galluogi ni a'r cyhoedd i asesu lefel yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer pob opsiwn. Byddwn yn sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd yn ystod yr ymgynghoriad.

Effaith Ar Y Gweithlu

Cydnabyddwn y bydd unrhyw newid yn effeithio ar rai o'n staff – meddygon, bydwragedd, staff nyrsio mewn gwasanaethau eraill sydd wedi'u heffeithio fel gwasanaethau'r fron, a staff cymorth. Rydym wedi cynnal asesiad o staff presennol a'r effaith y bydd newidiadau posibl i wasanaethau'n eu cael ar staff fel rhan o'r gwaith rydym wedi bod yn ei wneud i edrych ar ddyfodol y gwasanaeth yn y tymor hwy. Mae'r rhain wedi helpu i lywio ein hystyriaethau o'r goblygiadau sydd ynghlwm wrth newid byrdymor hefyd.

Caiff unrhyw newidiadau i wasanaeth a allai gael effaith ar ein gweithlu eu rheoli trwy'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer newid. Caiff ei alw'n Bolisi Newid Sefydliadol. Yn y Bwrdd lechyd, rydym wedi datblygu arweiniad i reolwyr ynghylch sut y dylid cefnogi staff yn ystod y broses newid. .

Cydraddoldeb A Hawliau Dynol

Mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i roi sylw priodol ("ystyriaeth briodol") i faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb a hawliau dynol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae angen i ni ystyried anghenion pobl o grwpiau gwahanol yn y gymdeithas y gallai fod effaith arnynt.

Mae'r grwpiau'n cynnwys:

- ✓ Oed
- ✓ Anabledd
- ✓ Ailbennu rhywedd
- ✓ Priodas a phartneriaeth sifil
- ✓ Beichiogrwydd a mamolaeth
- ✓ Hil
- ✓ Crefydd a chred
- ✓ Rhyw
- ✓ Cyfeiriadedd rhywiol

Mae gennym bryderon hefyd ynghylch grwpiau eraill y gallai fod effaith benodol arnynt - er enghraifft, gofaluwr, pobl ddirgaref a grwpiau eraill sy'n agored i niwed.

Rydym wedi cynnal prosesau sgrinio cychwynnol o faterion a allai effeithio ar grwpiau penodol. Mae hyn wedi cynnwys ystyried yr effaith ar bobl a allai fod yn awyddus i dderbyn gwasanaethau yn Gymraeg. Rydym yn parhau i adeiladu ar y gwaith a wnaed hyd yn hyn ac rydym yn ystyried effaith y cynigion hyn yn gyffredinol. Gallwch weld y gwaith rydym wedi'i wneud hyd yn hyn, ynghyd â phroffiliau poblogaeth, ar ein gwefan yn www.cymru.nhs.uk/mamolaethgc

Byddwn yn parhau i ddiweddarau'r asesiad o effaith yn ystod yr ymgynghoriad hwn. Byddwn hefyd yn ystyried adborth sy'n cael ei roi i ni yn ystod yr ymgynghoriad. I helpu, rydym yn gofyn am adborth ar unrhyw effaith y dylem wybod amdani, yn eich tyb chi - waeth a yw'n negyddol neu'n gadarnhaol.

Byddwn hefyd yn cynnwys pobl sy'n rhannu'r nodweddion gwarchoddedig a ddisgrifir uchod yn yr ymgynghoriad.

Rydym wedi sefydlu grŵp sy'n cynnwys pobl annibynnol sydd â diddordeb mewn cydraddoldeb er mwyn helpu i gynghori ynghylch y gwaith a'i herio, i sicrhau ei fod mor drwyadl â phosibl.

Caiff y Bwrdd Iechyd ei hysbysu'n llawn am ganlyniad yr asesiad cyn i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud.

Asesiad O Effaith Iechyd

Mae Asesiad o Effaith Iechyd cychwynnol wedi'i gynnal ar yr opsiwn ffafriedig. Mae hwn ar gael ar ein gwefan yn www.cymru.nhs.uk/mamolaethgc. Mae llawer o'r effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl sy'n deillio o'r cynnig ar iechyd a lles yn berthnasol i unrhyw rai o'r newidiadau dros dro sy'n cael eu hystyried.

Er y bydd llawer o'r materion yn debyg i unrhyw un o'r dewisiadau posibl, mae angen i ni sicrhau ein bod yn ystyried yr effaith o ran pob un, fel y gall y Bwrdd gael ei hysbysu'n llawn wrth ystyried eu penderfyniad. Yn ystod yr ymgynghoriad, byddwn yn cynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb o'r holl ddewisiadau. Bydd Uned Cefnogi Asesu'r Effaith Iechyd yng Nghymru yn ein helpu i wneud hyn. Bydd yr Uned yn arwain yr asesiad fel y bydd gennym broses annibynnol. Byddem yn croesawu unrhyw sylwadau ar yr effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl ar iechyd a lles sy'n deillio o bob un o'r dewisiadau sy'n cael eu hystyried.

Beth Fydd Yn Digwydd Nesaf?

Yn ystod yr ymgynghoriad, byddwn yn parhau i reoli'r risgiau ansawdd a diogelwch presennol o ran y gwasanaeth bob dydd er mwyn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth boddhaol ar gyfer mamau a babanod.

Bydd y Bwrdd Iechyd yn ystyried canlyniad yr ymgynghoriad yn yr Hydref. Os bydd y Bwrdd Iechyd yn penderfynu nad oes angen i wasanaethau newid, caiff grŵp prosiect ei sefydlu er mwyn cytuno ar fanylion terfynol yr opsiwn a ddewisir ac i gadarnhau'r camau o ran ei roi ar waith.

Câi unrhyw newid i'w gytuno ei roi ar waith cyn gynted â phosibl ar ôl i benderfyniad gael ei wneud.

Sut Byddwn Yn Penderfynu

Ar ddiwedd yr ymgynghoriad, bydd y Bwrdd Iechyd yn ystyried holl adborth yr ymgynghoriad ochr yn ochr â'r dystiolaeth bwysig arall. Bydd hyn yn cynnwys:

- Adroddiad annibynnol ar adborth a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad, yr ydym yn ei gomisiynu gan gwmni ymchwil cymdeithasol annibynnol
- Safbwyntiau Cyngor Iechyd Cymunedol Gogledd Cymru, sydd â rôl bwysig fel y "corff gwarchod" annibynnol i wasanaethau iechyd
- Tystiolaeth o'r Asesiad o Effaith Cydraddoldeb
- Tystiolaeth o'r Asesiad o Effaith Iechyd
- Asesiad o'r opsiynau gyferbyn â ffactorau allweddol
- Unrhyw dystiolaeth bellach am ansawdd a diogelwch y gallwn ei chasglu yn ystod y cyfnod hwn

Bydd y Bwrdd Iechyd yn cyfarfod yn gyhoeddus er mwyn gwneud ei benderfyniad a chaiff y wybodaeth a grybwyllwyd uchod ei chyhoeddi ymlaen llaw.

Dweud Eich Dweud

Bellach, hoffem i chi ddweud eich dweud am yr angen am newidiadau dros dro i wasanaethau mamolaeth a'r gwasanaethau cysylltiedig eraill rydym wedi'u disgrifio. Beth yw'ch barn chi? A oes unrhyw beth arall y dylem ni fod wedi'i ystyried, yn eich barn chi?

Rydym yn awyddus i glywed p'un a oes cynigion eraill gennych yn ymwneud â sut gallwn sicrhau bod gwasanaethau'n ddiogel. Gallwch roi gwybod i ni am hyn ar holiaduron yr ymgynghoriad neu drwy ysgrifennu atom (gweler isod am fanylion.) Gallwch gael rhagor o wybodaeth am ein gwasanaethau a fydd yn eich helpu i ystyried cynigion eraill ar www.cymru.nhs.uk/mamolaethgc.

Rydym am i gynifer o bobl â phosibl gael y cyfle i ymateb a chaiff yr holl sylwadau sy'n dod i law eu hystyried. Rydym wedi gofyn i gwmni annibynnol ddadansoddi'r ymatebion a byddwn yn cyhoeddi'r adroddiad annibynnol.

Mae nifer o ffyrdd y gallwch gael rhagor o wybodaeth am yr ymgynghoriad a ffyrdd o ymateb iddo a fydd yn cael ei gynnal o ddydd Llun 24 Awst 2015 hyd at ddydd Llun 5 Hydref 2015.

Ar-lein – mae gwefan yr Ymgynghoriad www.cymru.nhs.uk/mamolaethgc yn cynnwys y ddogfen hon a hefyd tystiolaeth arall y cyfeiriwyd ati. Byddwn yn parhau i ddiweddarau'r tudalennau gwe gyda newyddion, cwestiynau cyffredin a digwyddiadau am fanylion sy'n cael eu cynnal i drafod y cynigion. Gallwch lenwi holiadur ar-lein hefyd.

Cyfringau cymdeithasol - dilynwch ni ar Facebook (www.facebook.com/bcuhealthboard) a Twitter (@bcuhb) i gael newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf

Digwyddiadau - byddwn yn cynnal cyfarfodydd agored ar draws Gogledd Cymru sydd ar agor i bawb. Bydd hyn yn gyfle i chi glywed gan glinigwyr ac uwch swyddogion y Bwrdd Iechyd ac i roi eich sylwadau.

Bydd manylion am y digwyddiadau hyn ar y wefan a chânt eu cyhoeddi yn y wasg leol. Caiff posteri'n eu hysbysebu eu harddangos hefyd yn yr ardal leol.

Trwy e-bost – gallwch anfon eich sylwadau at DweudEichDweudGCymru@cymru.nhs.uk

Trwy'r post – llenwch yr holiadur gyda'r ddogfen hon a'i ddychwelyd i Opinion Research Services RHADBOST SS1018, Blwch SP 530, Abertawe, SA1 1ZL

Os yw'n well gennych ysgrifennu llythyr, gallwch ddefnyddio cyfeiriad rhabost y Bwrdd Iechyd, sef Ymgynghoriad Gwasanaethau Merched a Mamolaeth, RHADBOST, RSZZ-SGXY-TSEZ, LL17 0JG.

Dros y ffôn – gallwch ein ffonio'n RHADFFÔN 0800 169 3142 (o ddydd Llun i ddydd Gwener 9.00am tan 5.00pm; gadewch neges llais y tu allan i'r oriau hyn) a rhowch eich manylion i ni er mwyn i rywun eich ffonio'n ôl i drafod.

Os bydd angen copiâu eraill o'r ddogfen hon arnoch, ffoniwch ni yn RHADFFÔN ar 0800 169 3142 neu drwy anfon e-bost at DweudEichDweudGCymru@cymru.nhs.uk

Datganiad Cyfrinachedd

Caiff yr holl holiaduron sydd wedi'u cwblhau eu prosesu gan gwmni ymchwil cymdeithasol annibynnol ac arbenigol rydym yn ei benodi i wneud hyn a bydd y cwmni hwn yn adrodd arnynt. Bydd eich safbwyntiau'n gyfrinachol: ni fydd neb ac eithrio'r tîm ymchwil annibynnol yn gweld eich holiadur ac ni chaiff neb ei enwi yn yr adroddiad cyffredinol.

Beth fydd yn digwydd i'r ymatebion ysgrifenedig eraill (llythyrau, negeseuon e-bost a dogfennau eraill) a gawn?

Caiff ymatebion ysgrifenedig eraill eu crynhoi gan y cwmni ymchwil annibynnol. Gall rhannau o'r ymatebion neu ddogfennau cyflawn gael eu cyhoeddi'n llawn ar ein gwefan hefyd, yn cynnwys enw'r unigolyn neu'r sefydliad. Caiff sefydliadau eu henwi bob amser. Os ydych yn ymatebwr unigol ac nad ydych am i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni'n eglur yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb a byddwn yn gorchuddio'r manylion hynny cyn cyhoeddi eich ymateb.

Os cawn unrhyw geisiadau o dan y Ddeddf Ryddid Gwybodaeth i roi'r wybodaeth sydd wedi'i chadw'n ôl, ni fyddem yn cyhoeddi eich gwybodaeth bersonol heb reswm da iawn, a byddem yn cysylltu â chi'n gyntaf.

Mae'r Wybodaeth Hon ar gael mewn Fformatau Eraill:

- Wedi'i chyfieithu i iaith arall
- Print mawr
- Recordiad sain
- Iaith Arwyddion Prydain
- Fformat hawdd ei darllen

Se quiser uma cópia desta informação em português, ligue 0800 169 3142.

若您需要本信息的中文版，请致电 0800 169 3142 索取。

Jeśli chcielibyście Państwo uzyskać wersję tej informacji w języku polskim to prosimy o kontakt telefoniczny na numer tel. 0800 169 3142.

Dacă doriți o copie cu aceste informații în Românește, vă rugăm să sunați la tel: 0800 169 3142

Bu bilginin portekizce dilinde kopyasını istiyorsanız lütfen aşağıdaki numarayı arayınız 0800 169 3142.

Dylai ymatebion ddod i law heb fod yn hwyrach na dydd Llun 5 Hydref 2015

Hoffech chi Roi eich Safbwyntiau i Sefydliad Annibynnol?

Y Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) yw'ch corff gwarchod GIG annibynnol.

Os yw'n well gennych, gallwch roi gwybod am eich safbwyntiau trwy gysylltu â'r CIC yn gwbl gyfrinachol mewn un o'r ffyrdd canlynol:

Ffôn: 01248 679284 (est. 3)

E-bost: yourvoice@waleschc.org.uk

Gwefan: www.communityhealthcouncils.org.uk/betsicadwaladr

Ysgrifennwch atom yn:
North Wales Community Health Council
Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru
11 Llys Castan
Parc Menai
Bangor
Gwynedd, LL57 4FH